

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cynllun Pwnc Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuencid

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y [Cynllun Academaidd](#) cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Pwnc Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuencid yn gosod yr egwyddorion a'r nodau ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Cefndir y Pwnc

Mae gan y Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ddarpariaeth Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuencid; Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Mae natur y ddarpariaeth, lefel y ddarpariaeth a'r niferoedd myfyrwyr yn amrywio rhwng y sefydliadau, ond yn draddodiadol y prif ddarparwr yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac adlewyrchir hynny yn y data HESA ar gyfer 2016/17.

Mae cyrsiau Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn gwrs 100% cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u hanelu at unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg ond sydd efallai'n ansicr ynghylch yr union yrfa sydd o ddiddordeb, mae'n rhoi hyblygrwydd i archwilio ac ystyried ystod o gyfleoedd. Mae'r rhaglenni hyn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr drafod yn feirniadol y byd addysg newidiol sydd ohono a'u paratoi at ystod o yrfaeodded sy'n gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl ifanc.

Ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, caiff myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen Blynyddoedd Cynnar gyrsiau sy'n cael eu teilwra i hwyluso ymgysylltiad a chyfranogiad myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain fel eu bod yn dod yn raddedigion hyderus yn y dyfodol. Mae'r Ysgol yn cynnig rhai graddau Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar sy'n cael eu cydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gan yr Ysgol gysylltiadau agos â'r gymuned leol a ffocws cryf ar ehangu mynediad fel bod myfyrwyr anhraddodiadol yn gallu dychwelyd i addysg.

Mae'r rhaglen BA (Anrh) Gwaith Ieuencid a Chymunedol ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn cynnig cymhwyster proffesiynol i weithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'r radd wedi'i thanategu gan egwyddorion a gwerthoedd craidd gwaith ieuencid. Mae'r rhaglen yn cario ardystiad ETS Cymru sy'n gymhwyster a gydnabyddir gan JNC a gydnabyddir ar draws y byd. Mae'r radd yn archwilio sut i hwyluso a chefnogi twf pobl ifanc, a'u datblygiad personol a chymdeithasol, mewn amrywiaeth o leoliadau anffurfiol a heb fod yn ffurfiol. Mae'n adlewyrchu polisi ac arfer ieuencid cyfredol yng Nghymru a'r DU, ac mae'n berthnasol i'r sector galwedigaethol, cyflogwyr lleol a chenedlaethol a'r sector gwirfoddol. Mae lleoliadau'n rhan annatod o'r cwrs mewn lleoliadau gwaith ieuencid statudol a gwirfoddol, a chânt eu hategu drwy asesu'n feirniadol y materion sy'n effeithio ar fywydau

pobl ifanc, fel natur cymdeithas a materion cynhwysiant cymdeithasol, cymdeithaseg a seicoleg pobl ifanc. Rhaid i fyfyrwyr gwblhau 800 awr o leoliadau gwaith maes asesedig yn ystod y rhaglen, yn ogystal â mynychu ymweliadau arsylwi i gefnogi modylau eraill.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi yn y maes hwn yn y gorffennol, ar ffurf grantiau ar gyfer prosiectau bach a phrosiectau strategol, a gan ddarparu cefnogaeth i weithgareddau cydweithredol. Mae'r Coleg hefyd wedi ac yn dal i fuddsoddi mewn nifer o ddarlithyddiaethau trwy'r cynllun staffio.

Nid oes Cynllun Pwnc wedi ei lunio yn y gorffennol ar gyfer y maes hwn, er fod Panel Pwnc trawsefydliadaol wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn. Nid yw'r ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael ei gynnwys yn y cynllun pwnc hwn.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar categori'r pwnc yn genedlaethol oddi fewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, nid yw Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuencid fel pwnc yn gymwys am grant pynciol oherwydd ei fod yn cael ei ystyried fel pwnc aeddfed.

Proses

Datblygir y broses o gynllunio pynciol i fod yn broses o edrych yn fwy cyflawn ar y pwnc dan sylw a chynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn cyfrannu tuag at sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gofynnwyd i brifysgolion gwblhau ffurflen cynllunio pynciol fel un cam yn y broses o lunio'r Cynllun Pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd i gasglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am y lefel darpariaeth, niferoedd myfyrwyr a lefel staffio ym mlwyddyn academaidd 2016/17. Mae'r targedau yn y Cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth hynny ac yn gosod nodau uchelgeisiol ond cyraeddadwy o ran datblygiad y maes drwy gyfrwng y Gymraeg. Drafftwyd y Cynllun Pwnc gan Swyddogion y Coleg Cymraeg, gyda chyfle i brifysgolion ymgynghori, cyn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg.

Egwyddorion a Themâu

Mae'r egwyddorion a'r themâu a osodwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol yn parhau'n weithredol tra bo'r Cynllun newydd yn ystod y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor hwnnw.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuencid yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Rhwir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Addysg.

Sefyllfa 2016/17			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr ¹
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (mae 180 credyd ar gael ar y cwrs ôl-radd mewn Addysg Gofal Blynyddoedd Cynnar)	1.4 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1.4 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 71 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3
Prifysgol Metropoliton Caerdydd	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	2.75 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2.75 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 1 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 141 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson gyda'r dull adrodd arferol i HESA.

Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (yn cynnwys ôl-radd)	4.5 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 3 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 4.5 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 3 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 8 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 40 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	2.5 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 5 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2.5 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 5 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 46 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3
<i>Prifysgol De Cymru</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>1 aelod o staff yn siarad Cymraeg</i> <i>1 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</i> <i>19 sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl BI1–BI3</i>

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr

Gall fyfyrwyr o bob sefydliad fanteisio ar y Dystysgrif Sgiliau Iaith er mwyn gloywi eu iaith. Mae'r Dystysgrif yn agored i bob myfyriwr, os ydynt yn derbyn ysgoloriaeth ai peidio.

Mae'r Dystysgrif Cymhwyso Iaith i Athrawon wedi ei sefydlu ar gyfer darpar athrawon ar gyrsiau TAR Cynradd a TAR Uwchradd. Er nad yw'r dystysgrif ar gael i fyfyrwyr addysg, mae'r adnoddau sydd wedi eu datblygu ar y cyd â'r dystysgrif ar gael i bawb eu defnyddio.

Ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae cefnogaeth ddwyieithog ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr o ran sgiliau astudio. Mewn modiwl 20 credyd lefel 5 yn y cwrs BA Astudiaethau Addysg: Cynradd mae'n cynnwys 3 gweithdy Gloywi Iaith. Mae modiwl 40 credyd lefel 5 ar y cwrs BA Astudiaethau Addysg: Cynradd yn cynnwys 10 diwrnod o brofiad arsylwadol mewn gweithle.

Mae BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn gwrs sydd â ffocws ymarferol a galwedigaethol yn perthyn i'r cwrs, gyda llawer o gyfleoedd i ddysgu tu hwnt i'r ddarlithfa. Mae ymweliadau maes yn rhan o'r rhaglen, lle bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i brofi gwaith ieuenctid gwledig, trefol ac amlddiwylliannol. Mae cyfle hefyd i fyfyrwyr astudio dramor yn rhan o'u hastudiaethau yn yr ail flwyddyn. Bydd y sawl sy'n astudio'r radd BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar yn cael eu hannog i wirfoddoli mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i gefnogi eu dysgu. Rhoddir pwyslais ar astudiaethau academiaidd a chaiff myfyrwyr y cyfle i ffocysu ar eu sgiliau ymchwil, gan gynnwys y cyfle i ymgymryd â phrosiect ymchwil sylweddol yn eu blwyddyn olaf. Mae hwn yn gwrs delfrydol ar gyfer y rheiny a chanddynt ddiddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar blant ifanc a'u teuluoedd. Yn y radd, ceir hefyd cyfleoedd i ymgymryd â chysiau ardystiedig fel Gwobr John Muir. Bydd nifer o gyfleoedd i fynd ar ymweliadau, i wrando ar ddarlithoedd gan arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar ac am ymweliadau dewisol â gwledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt. Mae myfyrwyr y radd BA Astudiaethau Addysg: Cynradd yn mynd ar ddau leoliad arsylwadol yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol a cheir cyfle i astudio dramor am semester. Mae myfyrwyr presennol wedi magu hyder a chael profiadau bywyd gwerthfawr o'r cyfryw gyfleoedd. Dylunnir yr holl brofiadau hyn fel bod myfyrwyr yn gallu datblygu CV amrywiol a thrawiadol ochr yn ochr â'u gradd academiaidd.

	<p>Ym Mhrifysgol De Cymru mae gan y Brifysgol rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg yn y maes Addysg (nad yw'n cynnwys Statws Athro Cymwysedig) ar y cynllun gradd Israddedig: BA (Anrh) Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Ymarfer (gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar). Gall bob un myfyriwr gyflwyno aseiniadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae lleoliadau mewn ysgolion / meithrinfeydd Cymraeg ar gael i bob myfyrywyr. Mae myfyrywyr sy'n penderfynu astudio rhywfaint yn Gymraeg yn cael help i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau gwaith ac i fod yn hyderus i gyfathrebu gyda phatrymau brawddegau / geirfa addas. Mae'r Brifysgol yn cefnogi myfyrywyr drwy gynnig Gwasanaeth Sgiliau Astudio dwyieithog er mwyn rhoi cymorth i fyfyrwyr gydag ysgrifennu academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg a mathemateg. Mae myfyrywyr yn cael cyfnod o brofiad gwaith ar lefel 4-6, ar fodiwl o'r enw 'Dysgu ac Ymarfer Proffesiynol', sydd yn fodiwl gorfodol. Cynigir amrywiaeth o leoliadau Cymraeg i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio yn Gymraeg.</p>
<p>Darlithwyr</p>	<p>Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi rhedeg Cynllun Staffio ers 2011, gyda'r bwriad o gynyddu'r capasiti yn y sefydliadau, trwy benodi darlithwyr cyfrwng Cymraeg. Y bwriad oedd i'r darlithwyr hyn gael eu trosglwyddo i fod yn staff y prifysgolion ar ddiwedd cyfnod o 5 mlynedd. Mae darlithwyr wedi eu penodi i'r maes Addysg, Astudiaethau Plentynod ac Ieuencid, trwy gyfrwng Cynllun Staffio y Coleg yn y sefydliadau canlynol; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Wrth i'r Cynllun hwn gael ei drawsnewid yn Gynllun Grantiau Pynciol, bydd y swydd olaf yn trosglwyddo yn 2019.</p> <p>Mae anawsterau wrth recriwtio digon o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn parhau'n her i Brifysgol De Cymru. Byddai'n ddefnyddiol petai mwy o gyfleoedd i ddarlithwyr fynychu cyrsiau Sabothol wedi ei anelu atynt er mwyn sicrhau bod mwy o ymarferwyr addysg mewn addysg uwch yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r cyrsiau Sabothol hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus arbenigol ym maes addysg. Ar hyn o bryd, mae rhan helaeth o'r cyrsiau hyn wedi eu hanelu at athrawon ysgol yn unig.</p>
<p>Cwricwlwm</p>	<p>Ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ail ddilyswyd rhaglen BA Astudiaethau Addysg: Cynradd yn 2016 ac adlewyrchir y cyd-destun Cymraeg a Chymreig drwyddo.</p>

	<p>Mae Prifysgol De Cymru yn awyddus i ddenu mwy o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i'w cyrsiau addysg, ac mae anghenion y Gymraeg yn rhan o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm. Mae cwrs BA (Anrh) Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Ymarfer (gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar) yn rhoi cyfle i bob myfyriwr ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig, sy'n gallu cael ei gymhwyso mewn ymarfer proffesiynol. Mae cyrsiau'r Brifysgol yn cynnwys detholiad o ymarferion o'r arferion gorau sydd ar gael, naill ai o Gymru neu du hwnt. Mae'r Brifysgol yn cynnig cyrsiau newydd ar gyfer mis Medi 2019: BA Addysg; BA Addysg ar gyfer STEM. Bydd cyfleoedd i fyfyrwyr fynychu lleoliadau gwaith Cymraeg fel rhan o'r cyrsiau hyn .</p>
<p>Canlyniadau Myfyrwyr</p>	<p>Mae nifer o fyfyrwyr yn mynd yn syth i gyflogaeth mewn ysgolion. Gwelir bod rhai siaradwyr Cymraeg yn dod yn ôl i astudio ar gyrsiau ôl-raddedig yn ddiweddarach yn eu gyrfaedd.</p>
<p>Adnoddau</p>	<p>Ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mae'r Coleg wedi cylliduo a chefnogi nifer o Brosiectau ym maes Addysg, Astudiaethau Plentynod a Ieuencid. Yn deillio o'r prosiectau hyn mae nifer o adnoddau sydd wedi eu lleoli ar y Porth a/neu Llyfrgell Adnoddau y Coleg.</p> <p>Cyllidwyd y prosiectau canlynol trwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol rhwng 2010 a 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Modwil Dulliau Ymchwil – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2010) • Adnoddau Gloywi Iaith – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2010) • DVD a CD Cynorthwyol - Addysgu a Rheoli Dosbarth – Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (2010) • Gradd Sylfaen: Y Cyfnod Sylfan – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2011) • Deunyddiau Dysgu o Bell – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2011) • Modiwlau Cydweithredol Addysg ac Astudiaethau Plentynod – Prifysgol Aberystwyth (2011) • Modiwl Sgiliau Academaidd (Lefel 4) – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2013) • 'CAEA Gwaith Ieuencid a Chymuned' ym Mhrifysgol Cymru: Drindod Dewi Sant. (2016) Fe fydd y CAEA (Cwrs Agored Enfawr Ar-Lein) yn cyflwyno pecyn o adnoddau ymwybyddiaeth iaith ar-lein ar gyfer disgyblaeth Gwaith Ieuencid a Chymuned. Bydd yn cyflwyno ystyriaethau ieithyddol / gweithredu'n ddwyieithog i faes galwedigaethol lle mae'r Gymraeg yn hollbwysig, gan gyflwyno cyfres o weithgareddau ar-lein i gyd-fynd ag astudiaethau achos pwrpasol ar ffurf fideo. Bydd hwn ar gael yn Rhagfyr 2018.

Cyllidwyd y Grantiau Bach isod ers 2010:

- Cynhadledd Unydd Gweithio gyda Phlant (2012)
- Gweithdai Hyfforddi Dyslecsia (i ddarpar athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg) (2012)
- E-lyfr 'Cefngoi Pob Plentyn' (2015) Grant i lunio e-lyfryn ar gyfer myfyrwyr is-raddedig sy'n astudio Graddau Sylfaen rhan amser ym maes addysg, i wella eu Sgiliau Iaith Personol ac i wella eu hymarfer wrth gefnogi'r disgyblion o ddydd i ddydd. Mae'r e-lyfr ar gael ar Llyfrgell Adnoddau'r Coleg: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=4003~4h~GGh0Q57N>

Mae Gweithgareddau Cydweithredol hefyd wedi eu cefnogi yn y Sefydliadau ers 2010. Golyga'r cydweithio hyn fod myfyrwyr wedi gallu elwa o'r gweithgareddau yn draws-sefydliadol.

Cyllidwyd y Gweithgareddau Cydweithredol isod ers 2010:

- Modiwl Boed Glaw neu Hindda (2014 – 2016)
- Cynhadledd Dwyieithrwydd mewn Addysg (2015)
- Cynhadledd Undydd Gweithio gyda phlant a theuluoedd (2015)
- Cynhadledd Llwybrau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (2016)
- Yn 2017/18 cyllidwyd Gweithdy Undydd ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mhrifysgol Cymru: Drindod Dewi Sant, ynghyd â Chynhadledd Genedlaethol ar Faterion Cyfoes mewn Addysg, ym Mhrifysgol Bangor, cynhelir y ddwy weithgaredd cydweithredol hyn yn y flwyddyn academaidd 2018/19.

Gwerddon:

Mae sawl erthygl academaidd hefyd wedi eu cyhoeddi yn Gwerddon yn perthnasu i'r maes Addysg, Astudiaethau Plentynod a leuenctid:

- Bryn Jones, 'Amrywiaeth Caleidosgopig': Addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw' (2010)
- Hunydd Andrews, 'Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru' (2011)
- Jessica J. Clapham, 'Dadansoddiad o ddefnydd athrawon dan hyfforddiant o gyfnewid cod mewn dosbarth uwchradd dwyieithog: Achos o Gymru' (2012)
- Lowri Edwards et al., 'Canfyddiadau athrawon Addysg Gorfforol ynghylch Addysg Gorfforol o ansawdd uchel o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ne Cymru' (2015)

	<ul style="list-style-type: none"> • Mirain Rhys, 'Y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen' (2018) • Prysor Mason Davies ac Emily Parry, 'Pan fo addysgwyr yn ddysgwyr – safbwyntiau ar hyder ymarferwyr ail iaith i gefnogi "Datblygu'r Gymraeg" fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen' (2018) • Siân Wyn Siencyn, 'Darpariaeth Gymraeg i blant ifanc: hanes a heriau datblygiad addysg feithrin yng Nghymru' (2018) • W. Gwyn Lewis, 'Addysg ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: Adolygu'r cyd-destun rhyngwladol' (2011) <p>Adnoddau Eraill o ddefnydd: Mae adnoddau eraill wedi eu cyllido gan y Coleg sydd o ddefnydd i'r maes hwn gan gynnwys Adnoddau Sgiliau Iaith Athrawon ac Adnoddau Gloywi Iaith ar gyfer y dosbarh. Gweler yr adnoddau ar wefan y Coleg - http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/sgiliauiaithathrawon/</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>Mae gyrfaoedd ym maes Addysg ymhlith y sectorau sydd yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yng Nghymru. Yn ôl y Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth a gyhoeddwyd yn 2018 mae oddeutu 138,000 o bobl (10.1% o'r boblogaeth) yn gweithio yn y sector addysg yng Nghymru.²</p> <p>Mae'r gweithlu Addysg ymhlith y gweithleoedd cymreicaf yng Nghymru gyda 32% o'r gweithlu yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011.³ Mae 84% o gyflogwyr ym maes gofal plant hefyd o'r farn bod sgiliau yn y Gymraeg yn bwysig yn y gweithle.⁴</p> <p>Athrawon a Darlithwyr sydd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o'r gweithlu ym myd addysg sef dros 40%. Mae nifer o swyddi yn gysylltiedig â gweithio ym maes addysg yn ogystal, fel a nodir isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynorthwyrwyr Addysgu • Gweithwyr Chwarae • Athrawon a Thiworiaid Peripatetig • Athrawon Cymorth Dysgu • Rheolwyr ym myd addysg

² https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=2013265930#section_8_0

³ Cyfrifiad 2011 WP207WA <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/wp207wa>

⁴ <https://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140429-welsh-language-skills-needs-eight-sectors-cy.pdf>

- Darlithwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Nyrsys Meithrin a Chynorthwyyr
- Seicolegwyr
- Athrawon Ysgol Gynradd
- Athrawon Ysgol Uwchradd
- Hyfforddwyr
- Cynghorwyr ac Arolygwyr
- Addysgu
- Cynorthwyyr Cymorth Addysgol
- Gweithwyr Ieuenctid

O ran ymgymryd â gyrfa ym maes addysgu mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i gymell graddedigion i astudio ar gyfer cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon.

Mae 93.9% o raddedigion addysg y DU mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach ar ôl graddio gyda 77.5% ohonynt yn gweithio ym meysydd addysgu, gofal plant ac iechyd.⁵

Mae 90.1% o raddedigion Astudiaethau Plentynod y DU mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach ar ôl graddio gyda 64.7% ohonynt yn gweithio ym meysydd addysgu, gofal plant ac iechyd.⁶

Mae 91.3% o raddedigion Astudiaethau Ieuenctid a Gwaith Cymdeithasol y DU mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach ar ôl graddio gyda 59.2% o ohonynt yn gweithio ym maes y Gyfraith, gwaith cymdeithasol a lles. Mae 20.7% ohonynt yn gweithio ym meysydd addysgu, gofal plant ac iechyd.⁷

Ym Mhrifysgol De Cymru, mae modiwlau profiad gwaith (gweler 'Profiad Myfyrwyr') ym mhob blwyddyn astudio ar y cyrsiau addysg, sydd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer ymarfer proffesiynol yn y byd addysg. Mae'r myfyrwyr yn gwneud popeth y disgwylir i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar ei wneud, o dan oruchwyliaeth mentor cymwys.

⁵ <https://www.hesa.ac.uk/news/28-06-2018/sfr250-higher-education-leaver-statistics-subjects>

⁶ <https://www.hesa.ac.uk/news/28-06-2018/sfr250-higher-education-leaver-statistics-subjects>

⁷ <https://www.hesa.ac.uk/news/28-06-2018/sfr250-higher-education-leaver-statistics-subjects>

Ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, mae eu graddedigion o'r BA Astudiaethau Addysg yn cael eu cyflogi mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae natur y radd a'r sgiliau a ddatblygir yn golygu bod gan eu graddedigion y sgiliau, y nodweddion, y ddealltwriaeth a'r galluedd i weithio mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y sector addysg, gofal cymdeithasol, iechyd a phroffesiynau tebyg yn ogystal â'r sector gwirfoddol. Mae ein gradd yn berthnasol iawn i'r rhai graddedigion sy'n dymuno hyfforddi i ddod yn athrawon drwy'r llwybr Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR), gan fod y radd yn rhoi cefndir a dyfnder dealltwriaeth o faterion sy'n berthnasol i blant ysgol gynradd. Mae graddedigion eraill wedi parhau â'u hastudiaethau gydag amrywiaeth o raglenni Meistr.

O ganlyniad i wneud cais am le ar y rhaglen radd BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, mae llawer o'u graddedigion yn dod o hyd i waith yn uniongyrchol ym maes gwaith ieuenctid a chymuned, yn y sectorau gwirfoddol ac wedi'i gynnal. Gall hyn fod ar lefel wyneb i wyneb, yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o gyd-destunau (gan gynnwys gwaith ieuenctid mewn ysgolion, gwaith ieuenctid datgysylltiedig, gwaith ieuenctid seiliedig ar iechyd, ac ati), neu gallent ddod o hyd i waith ar lefel rheolwr. Mae graddedigion eraill wedi cael swyddi Swyddogion Lles Addysg, neu mewn canolfannau preswyl i blant a phobl ifanc. Mae graddedigion yn gweithio o fewn sefydliadau camddefnyddio sylweddau, prosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc ddigartref, ac o fewn ystod eang o sefydliadau sy'n cynnwys y rheiny sy'n ffocysu ar fabwysiadu, pobl ifanc sy'n derbyn gofal, a phobl ifanc sy'n ofalwyr. Mae hyn yn dangos sut y gellir trosglwyddo'r sgiliau y mae'r graddedigion wedi'u datblygu wrth astudio ar y rhaglen radd i leoliadau eraill, ac sy'n sgiliau a groesawir o fewn timau aml-ddisgyblaeth. Mae rhai graddedigion wedi cael swyddi mewn addysg gymunedol, cyfiawnder ieuenctid, asiantaethau gwirfoddol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac mae eraill wedi parhau gyda'u hastudiaethau drwy fynd ymlaen i astudiaethau/ymchwil ôl-raddedig.

Mae'r cwrs BA Addysg a Gofal Blynnyddoedd Cynnar yn llwybr cydnabyddedig i mewn i gyrsiau hyfforddi pellach, fel y cwrs TAR i fod yn athro ysgol gynradd a'r MSc mewn Gwaith Cymdeithasol. Fodd bynnag, golyga'r radd aml-ddisgyblaeth hon y gall y myfyrwyr gyrchu nifer o yrfaeodded sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant ifanc a theuluoedd.

Mae graddedigion y gorffennol wedi mynd ymlaen i weithio / cael hyfforddiant fel:

	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog datblygu blynyddoedd cynnar • Cydlynnydd Cyfnod Sylfaen • Swyddog chwarae • Darlithydd addysg bellach ac addysg uwch • Personél Canolfan Teuluoedd • Personél yr Heddlu <p>Yn ogystal â'r rhain, mae graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i weithio yn y llywodraeth, ac yn y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae'r radd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymchwil a sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar myfyrwyr yn ogystal â rhoi iddynt sgiliau rheoli amser a threfnu rhagorol. Mae galw mawr am y sgiliau hyn oll gan amrywiaeth o wahanol gyflogwyr, ac felly gellir trosglwyddo'r sgiliau a geir yn ystod y radd i wahanol lwybrau gyrfa. Ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, maent yn gweithio'n agos iawn â chyflogwyr ac mae hyn yn helpu'r tîm darlithio i sicrhau bod cynnwys y radd yn cefnogi'r mathau o sgiliau a phrofiadau sydd eu hangen ar raddedigion wrth wneud cais am waith.</p>
<p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p>	<p>Yr her gydag addysg yw bod yna nifer fawr o lwybrau gyrfa gwahanol yn deullio o'r pwnc. Byddai hyrwyddo y cyfleoedd gyrfa sy'n deillio o astudio'r pwnc addysg yn sicrhau gwell dealltwriaeth ac yn arwain at gynaliadwyedd y pwnc.</p> <p>Mae cyfle i weithio'n agosach gyda Cholegau Addysg Bellach i annog dilyniant rhwng cyrsiau Gofal Plant a chysiau Addysg Plentyndod Cynnar a Gwaith Ieuenctid.</p>

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Lefel Darpariaeth	<p>Dau sefydliad yn cynnig 120 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 60 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Dau sefydliad yn cynnig 120 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 60 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Dau sefydliad yn cynnig 120 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Un sefydliad yn cynnig 60 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
2. Niferoedd Darlithwyr	27 CALI o staff yn addysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg	27 CALI o staff yn addysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg	27 CALI o staff yn addysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg
3. Nifer Myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	147 o fyfyrwyr	147 o fyfyrwyr	147 o fyfyrwyr

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol

Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
Prifysgol Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	Myfyrwyr	O leiaf 15 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 15 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 15 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.
	Nifer Darlithwyr	O leiaf 8 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.
Prifysgol Metroliton Caerdydd	Myfyrwyr	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.
	Nifer y Darlithwyr	O leiaf 3.75 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 3.75 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 3.75 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

	Dapariaeth	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn.
Prifysgol Aberystwyth	Myfyrwyr	O leiaf 8 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.
	Nifer Darlithwyr	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
	Dapariaeth	O leiaf 60 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 60 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 60 credyd ym mhob blwyddyn.
Prifysgol Bangor	Myfyrwyr	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.
	Nifer y Darlithwyr	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 7.5 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
	Dapariaeth	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn.

Prifysgol De Cymru	<i>Myfyrwyr</i>	<i>O leiaf 6 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.</i>	<i>O leiaf 6 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.</i>	<i>O leiaf 6 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.</i>
	<i>Nifer y Darlithwyr</i>	<i>O leiaf 1 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>O leiaf 1 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>O leiaf 1 aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</i>
	<i>Dapiaeth</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg</i>